# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 4**

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cyffredinol*

## 70 Talu cosbau

Rhaid talu cosb o dan y Bennod hon cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad am y gosb (ond gweler adran 182 o DCRhT (talu cosbau yn achos adolygiad neu apêl)).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 70 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 70 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(v)**

## 71 Gwahardd cosbi ddwywaith

Nid yw person yn agored i gosb o dan y Bennod hon mewn cysylltiad ag unrhyw beth os yw'r person wedi cael euogfarn am drosedd mewn perthynas â hynny.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cyffredinol. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 71 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I4** A. 71 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(v)**

## 72 Atebolrwydd cynrychiolwyr personol

(1) Os yw person sy'n agored i gosb o dan y Bennod hon ("P") wedi marw, caniateir asesu unrhyw gosb y gellid bod wedi ei hasesu ar P ar gynrychiolwyr personol P.

(2) Mae cosb a asesir yn unol ag is-adran (1) i'w thalu o ystad P.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 72 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I6** A. 72 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(v)**

VALID FROM 01/04/2018

## 73 Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cosbau

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch—

(a) symiau cosbau o dan y Bennod hon, a

(b) y weithdrefn ar gyfer asesu cosbau o dan y Bennod hon.

(2) Caiff y rheoliadau ddiwygio'r Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 73 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cyffredinol.